Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

PRESS RELEASE
17 August 2009

Abertoir: The National Horror Festival of Wales
Wednesday 4th – Sunday 8th November 2009
Aberystwyth Arts Centre

Abertoir, the National Horror Festival of Wales, will run at Aberystwyth Arts Centre from Wednesday 4th – Saturday 8th November 2009. Now in its 4th year, Abertoir is one of the genre's most vibrant, credible and recognisable festivals.

With support from the Film Agency for Wales Abertoir has grown to become an internationally acclaimed festival, and a premiere event of the year for horror fans. Each year hundreds of horror fans gather in Aberystwyth for five packed days of film premieres, previews, theatre, concerts, personal appearances, filmmaking master classes, literature events, presentations, prizes, signings, bar promotions, and surprise screenings. This year there will also be a short films competition with a £1000 prize sponsored by Carlsberg.

Over the past four years Abertoir has not only hosted premieres and international genre stars, but also helped to launch the careers of directors such as Marc Price. Marc juggled making his debut film - *Colin* - with his job at a courier firm and he wrote, directed and produced the entire film for only £45. *Colin* was screened at the Abertoir 2008 and as a result came to the attention of sales agent Helen Grace. Helen urged Marc to take the film to Cannes where it wowed the critics and won a deal for nationwide release: *Colin* will be released in UK cinemas on the 23rd of October and on DVD three days later.

This year Abertoir will screen over 20 films, and will open with a rare screening of the cult 80's movie *The Keep*. Starring Sir Ian McKellen, directed by Michael Mann with a score by Tangerine Dream, the film focuses on a deserted citadel in World War II Romania within which lies entrapped a dangerous and malevolent entity. Filmed in Wales at Blaenau Ffestiniog and Llanberis, this film is not available on DVD and shouldn't be missed in its original 35mm glory.

Abertoir guests this year include the legendary director Herschell Gordon Lewis. Nicknamed "The Godfather of Gore", Herschell invented the 'splatter movie' with his legendary film *Blood Feast* back in 1963. His films changed the face of modern horror, and horror directors the world over are indebted to his visionary new approach. Herschell will present a filmmaking masterclass exploring the ins and outs of low budget movie-making. He will also premiere his new film *Grim Fairy Tale*, starring a previous Abertoir guest, Lloyd Kaufman.

Doug Bradley, aka 'Pinhead' in the Hellraiser movies, will return for a second year running with his presentation - The Man in The Mask - an entertaining talk about masking and film makeup effects.

Abertoir will also be screening the latest edition of Doug's Spine Chillers talking visual book series with Edgar Allan Poe's *The Tell-Tale Heart*, as well as his new movie *Umbrage*.

And what Welsh horror festival would be complete without a look at the iconic film *An American Werewolf in London*? The moors scenes were filmed at Hay Bluff, a mountain close to Hay-on-Wye in Powys, a popular destination for tourists and backpackers. The evening will also feature a movie-length documentary about the making of the film, and writer Gavin Baddeley, a Reverend in the Church of Satan, will present a fascinating talk on the history of werewolf hunting.

On Sunday 8th November) Abertoir will also present *An Evening at the Grand Guignol,* a special theatre performance of three classic Grand Guignol plays from early 20th century France. The Théâtre du Grand-Guignol in Paris (1897-1962) achieved a legendary reputation as the 'Theatre of Horror', a venue presenting such explicit violence and blood-curdling terror that a resident doctor was employed to treat the numerous spectators who fainted each night. *An Evening at the Grand-Guignol* offers a rare and exciting opportunity to experience a recreation of this unique and influential theatre form.

Live music will be provided by the cult band Zombina and the Skeletones on Friday 6th November. Zombina and the Skeletones have been wrenching 100% pure rock n' roll genius from the very pits of their tortured, vampiric souls since 1998. They're the bloodiest and most enjoyable experience you can have short of sacrificing yourself to some goat headed deity in the woods on St. Swithens Night….

Tickets for Abertoir events can be booked by contacting the Aberystwyth Arts Centre Box Office on 01970 623232 or online at www.aber.ac.uk/artscentre. Festival Passes are only £40 (over 18s only). Individual tickets are also available. For more details, please visit www.abertoir.co.uk

-ENDS-

Notes to editors:
Further information is available from Rachel Taylor on 01970 622894 email rst@aber.ac.uk
Marketing Assistant *Cynorthwy-ydd Marchnata*
Aberystwyth Arts Centre *Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth*
Tel Ffon 01970 622889 Email Ebost rst@aber.ac.uk

Further Aberystwyth Arts Centre press releases can be found at www.aberystwythartscentre.co.uk/press.shtml.

Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

DATGANIAD I'R WASG
17 Awst 2009

Abertoir: Gŵyl Arswyd Genedlaethol Cymru
Dydd Mercher 4ydd - Dydd Sul 8fed Tachwedd 2009
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Cynhelir **Abertoir**, Gŵyl Arswyd Genedlaethol Cymru, yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth o ddydd Mercher 4ydd - dydd Sadwrn 8fed Tachwedd 2009. 'Nawr ar ei phedwaredd flwyddyn, cydnabyddir Abertoir fel un o wyliau mwyaf bywiog, credadwy ac adnabyddus y *genre*.

Gyda chefnogaeth oddi wrth Asiantaeth Ffilm Cymru mae Abertoir wedi datblygu i fod yn ŵyl sydd ag enw da yn rhyngwladol, ac yn un o brif weithgareddau'r flwyddyn ar gyfer y sawl sy'n mwynhau ffilmiau arswyd. Pob blwyddyn daw cannoedd o gefnogwyr yr ŵyl at ei gilydd yn Aberystwyth ar gyfer pum diwrnod orlawn o ddangosiadau cyntaf, rhagolygon, theatr, cyngherddau, ymddangosiadau personol, dosbarthiadau meistr, gweithgareddau llenyddiaeth, cyflwyniadau, gwobrau, arwyddo llyfrau, hyrwyddiadau yn y bar a ffilmiau annisgwyl! Eleni hefyd trefnir cystadleuaeth ffilmiau byrion gyda gwobr o £1000 a noddir gan Carlsberg.

Dros y pedair blynedd diweddar, yn ogystal â chyflwyno dangosiadau cyntaf a chroesawu sêr rhyngwladol ym maes ffilm, mae Abertoir hefyd wedi helpu i lansio gyrfaoedd cyfarwyddwyr megis Marc Price. Bu Marc yn jyglo gwneud ei ffilm gyntaf - *Colin* - gyda'i swydd bob dydd a llwyddodd i ysgrifennu, cyfarwyddo a chynhyrchu'r ffilm yn ei chyfanrwydd am £45. Dangoswyd *Colin* yn ystod gŵyl Abertoir 2008 a denwyd sylw'r asiant Helen Grace. Bu Helen yn annog Marc i gymryd y ffilm i Cannes lle y bu'n llwyddiant mawr ac enillodd gytundeb i'w rhyddhau'n genedlaethol: Bydd *Colin* yn cael ei rhyddhau yn sinemâu'r DU ar 23ain Hydref ac ar DVD tridiau yn ddiweddarach.

Eleni bydd Abertoir yn dangos dros 20 o ffilmiau, a bydd yr ŵyl yn agor gyda dangosiad prin o'r ffilm gwlt o'r 80au *The Keep*. Gyda Syr Ian McKellen yn chwarae'r brif ran, Michael Mann yn cyfarwyddo a gyda sgôr gan Tangerine Dream, mae'r ffilm yn ffocysu ar gaer ddiffaith yn Rwmania yn ystod yr ail Ryfel Byd lle mae rhywbeth peryglus a mileinig wedi'i garcharu. Wedi'i ffilmio yng Nghymru ym Mlaenau Ffestiniog a Llanberis, nid yw'r ffilm hon ar gael ar DVD ac ni ddylid ei methu ar ei ffurf 35mm wych wreiddiol.

Ymysg gwesteion Abertoir eleni yw'r cyfarwyddwr blaenllaw Herschell Gordon Lewis. Gyda'r llysenw "The Godfather of Gore", dyfeisiodd Herschell y 'splatter movie' gyda'i ffilm enwog *Blood Feast* yn ôl ym 1963. Bu ei ffilmiau yn newid gwedd y ffilmiau arswyd modern, ac mae cyfarwyddwyr arswyd ledled y byd yn fawr eu dyled i'w dulliau gweledigaethol arloesol. Bydd Herschell yn cyflwyno dosbarth meistr ar dechnegau creu ffilmiau ar gyllideb gyfyng ac hefyd yn dangos am y tro cyntaf ei ffilm newydd *Grim Fairy Tale*, gydag un o gyn-westeion Abertoir sef Lloyd Kaufman yn cymryd rhan.

Bydd Doug Bradley, sy'n adnabyddus fel 'Pinhead' yn y ffilmiau *Hellraiser*, yn dychwelyd am yr ail flwydyn gyda'i gyflwyniad - *The Man in The Mask* - sgwrs difyr ar fasgiau ac effeithiau coluro ym myd ffilm. Bydd Abertoir hefyd yn dangos y rhifyn diweddaraf yng nghyfres llyfrau gweledol *Spine Chillers* Doug sef *The Tell-Tale Heart* gan Edgar Allan Poe, yn ogystal â'i ffilm newydd *Umbrage*.

A pha ŵyl arswyd Gymreig fyddai'n gyflawn heb olwg ar y ffilm eiconig *An American Werewolf in London*? Ffilmiwyd rhannau o'r ffilm hon yn Hay Bluff, mynydd ger bwys y Gelli ym Mhowys, sy'n lle poblogaidd ar gyfer twristiaid a theithwyr. Bydd y noson hefyd yn cynnwys ffilm ddogfen yn sôn am wneuthuriad y ffilm, a bydd yr ysgrifennwr Gavin Baddeley, sy'n Offeiriad yn Eglwys Satan, yn cyflwyno anerchiad hynod diddorol ar hanes hela blaidd-ddynion.

Bydd Abertoir hefyd yn cyflwyno *An Evening at the Grand Guignol*, perfformiad theatr arbennig o dair drama Grand Guignol glasurol o Ffrainc yn yr 20fed ganrif gynnar. 'Roedd y Théâtre du Grand-Guignol ym Mharis (1897-1962) yn enwog fel y 'Theatr Arswyd', lle cyflogwyd doctor preswyl i ofalu am yr aelodau niferus o'r gynulleidfa a fu'n llewygu bob nos ar ôl gwylio'r perfformiadau erchyll. Bydd *An Evening at the Grand-Guignol* yn cynnig cyfle prin a chyffrous i brofi ail-gread o'r ffurf theatraidd unigryw a dylanwadol hon.

Darperir cerddoriaeth fyw gan y band cwlt Zombina, a'r Skeletones. Mae Zombina a'r Skeletones wedi bod yn creu cerddoriaeth roc a rôl wych, sy'n deillio o'u heneidiau arteithiedig, fampiraidd, ers 1998! Dyma'r profiad mwyaf gwaedlyd a phleserus y gallwch gael, onibai eich bod am aberthu'ch hun i ryw dduw â phen gafr yn y coed ar Noson Gŵyl Switan …

Gellir archebu tocynnau ar gyfer Abertoir trwy gysylltu â Swyddfa Docynnau'r Ganolfan ar 01970 623232 neu ar-lein ar www.aber.ac.uk/artscentre. Gellir prynnu tocyn arbennig ar gyfer holl weithgareddau'r ŵyl am £40 (dros 18 oed yn unig). Mae tocynnau unigol ar gael hefyd. Am ragor o fanylion ymwelwch â www.abertoir.co.uk

- DIWEDD -

Nodiadau i olygyddion:
Ceir rhagor o wybodaeth oddi wrth Rachel Taylor ar 01970 622894 e-bost rst@aber.ac.uk
Cynorthwy-ydd Marchnata
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Ffôn 01970 622889 E-bost rst@aber.ac.uk

Gwelir rhagor o ddatganiadau Canolfan y Celfyddydau i'r wasg ar www.aberystwythartscentre.co.uk/press.shtml.